Cofnodion cyfarfod BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Nodiadau	**Camau gweithredu**
YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Carol Bell, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carys Howell; Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Jessica Seaton; Kay Andrews, Keshav Singhal; Michael Prior; Rachel Hughes; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Richard Bevins, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **YN BRESENNOL:** Lesley-Anne Kerr, Pennaeth y Tîm Datblygu Amgueddfeydd, yr Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd; Heledd Fychan, Rheolwr Materion Corfforaethol ac Eiriolaeth.	
Datganiad o Fudd: Barwnes Kay Andrews fel Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru ym mhob peth sy'n ymwneud â Chronfa Dreftadaeth y Loteri.	
1 **CROESO AC YMDDIHEURIADAU** 1.1 Croesawyd yr aelodau a Lesley-Anne Kerr o'r Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Diane Gwilt, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro, a James Watkins, Pennaeth MALD.	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod a chael eu briffio am Lywodraethiant, Benthyciadau Rhyngwladol a Sganio'r Gorwel. ***Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 **COFNODION** **5.1** Penderfynwyd: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2017, a 9 Mai 2017.	
3 MATERION YN CODI o'r cofnodion 3.1 4.5 Polisi Iaith Gymraeg – cyfrifoldebau a hyfforddiant i Ymddiriedolwyr. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu mai hi oedd y Swyddog Dynodedig yn gyfrifol am gydymffurfio gweithredol â safonau'r iaith Gymraeg bob dydd. Ni fyddai Ymddiriedolwyr yn gyfrifol yn droseddol am unrhyw achos o dorri deddfwriaeth o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ond gall yr Amgueddfa gael ei dirwyo. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn hyderus yn ein dull cadarnhaol a gweithredol o gymryd y camau cywir i sicrhau ein bod yn	

Nodiadau	Camau gweithredu
cydymffurfio. Caiff hyfforddiant Cymraeg i Ymddiriedolwyr ei drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.	
4 SESIWN BRIFFIO MALD: AMGUEDDFA BÊL-DROED AC ORIEL GELF GENEDLAETHOL; STRATEGAETH AMGUEDDFEYDD I GYMRU 4.1 Adroddwyd: Nododd Pennaeth Tîm Datblygu Amgueddfeydd MALD y cyhoeddwyd contract astudiaeth ddichonolrwydd yr Amgueddfa Bêl-droed / Chwaraeon Genedlaethol. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno ar sgôp yr astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Gelf Gyfoes i Gymru. Byddai'r broses gaffael ar ben erbyn diwedd mis Medi 2017. 4.2 Roedd yr Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn aros am sylwadau terfynol o ran Strategaeth yr Amgueddfa, cyn ei chyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet. Pan fyddai wedi'i chymeradwyo, byddai wedyn yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus. 4.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf ym mhob cyfarfod.	MALD
5* YR UNDEB EWROPEAIDD** ***Datganiad o Fudd – Heledd Fychan, Aelod o Fwrdd Cymdeithas yr Amgueddfeydd 5.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 5.2 Adroddwyd: Bod y papur yn amlinellu effeithiau a goblygiadau i'r Amgueddfa, yn y presennol a'r dyfodol ynglŷn â Brexit. 5.3 Roedd copïau o gyflwyniad a roddwyd gan yr Ymddiriedolwyr Hywel Ceri Jones ar y rhaglen Erasmus, ar gael i Aelodau. Nododd Aelodau fod adroddiadau eraill gan gynnwys un a chynhyrchwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, hefyd yn cyfrannu at ymateb Cymru i'r penderfyniad i adael yr UE. Dangosodd yr adroddiadau hyn yr effaith eang ar y sector Addysg Uwch a thu hwnt. 5.4 Nododd Aelodau datblygiad y Llywodraeth ynglŷn â thrafodaethau Brexit. Roedd yr Amgueddfa yn cymryd rhan mewn projectau INTERREG, y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd, a'r Gronfa Eiddo'r Cyngor Prydeinig, ac roedd yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy'r byd. Roedd naw aelod o staff yn dod o wledydd yr UE. Roedd Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd lleol yn parhau i gasglu ar y thema Brexit. 5.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.	
6 DIWEDDARIAD AR BROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN	

Nodiadau	Camau gweithredu
6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Project / y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 6.2 Adroddwyd: Cyrhaeddwyd carreg filltir sylweddol gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn y Prif Adeilad ar ei newydd wedd – gan mai dyma'r bobl gyntaf i ddefnyddio'r gofod cyn i'r cyfleusterau agor i'r cyhoedd ar 13 Gorffennaf. Nid oedd y gofodau staff ar ochr dde'r adeilad yn rhan o'r project ailddatblygu, a nododd Aelodau fod Amgueddfa Cymru wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal projectau cyfalaf cynnal a chadw ar draws ei holl Amgueddfeydd. Bwriadwyd gorffen y project erbyn mis Hydref 2018, gyda Llys Llewelyn a'r orielau newydd yn agor yn yr hydref 2019. Talodd Cyfarwyddwr y Project deyrnged i'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, ac Ymgynghorydd Datblygu Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn arbennig, am eu gwaith cynharach a'u hymrwymiad yn eu rolau blaenorol. 6.3 Trafododd yr Aelodau'r targed codi arian sy'n weddill, a'r strategaeth i'w gyflawni. Nodwyd cyfleoedd megis gweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw hi i Gaerdydd yn 2018, yn arbennig oherwydd mai hon fyddai'r Eisteddfod 'heb ffiniau'. Nododd Aelodau fod yr Amgueddfa yn noddi Cadair yr Eisteddfod. 6.4 Diolchodd y Bwrdd i'r staff a'r Tîm Project am sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr wedi bod yn rhan o'r broses drwyddi draw, gan gynnwys eu gwaith gyda Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan. Croesawodd Ymddiriedolwyr y ddeialog drwy gydol y project, a theimlo eu bod wedi bod yn rhan o'r daith. Roeddent yn hyderus bod hwn yn gyfle ardderchog i Gymru gyfan. 6.5 Diolchodd y Llywydd i'r Amgueddfa am gyrraedd y garreg filltir hon. Roedd ymwelwyr yn y daith breifat ddoe wrth eu bodd â'r cyraeddiadau, a byddant yn llysgenhadon cadarnhaol ar gyfer Amgueddfa Cymru yn y dyfodol. Ymestynnodd ei diolch i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am ei arweiniad ers iddo gael ei benodi. Mewn ymateb, diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Tîm Project a Chyfarwyddwr y Project am eu llwyddiant. Teimlodd fod y project yn cynnig gwerth ardderchog am arian i Lywodraeth Cymru ac i Gymru. Diolchodd yr Ymddiriedolwyr i Paul Loveluck, Llywydd blaenorol yr Amgueddfa, am ei weledigaeth, ei waith a'i gyfraniad o'r cychwyn cyntaf. 6.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Y Cyfarwyddwr Datblygu i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol i adrodd ar weithgarwch codi arian Sain Ffagan.	Cyfarwyddwr Datblygu
7 ADRODDIAD CHWE-MISOL CASGLIADAU AC YMCHWIL 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro. 7.2 Adroddwyd: Nododd y Cyfarwyddwr gyraeddiadau sylweddol i'r Amgueddfa a'n partneriaid o'r adroddiad. Diolchwyd i'r Ymddiriedolwyr am eu cymorth wrth hyrwyddo arddangosfeydd a gweithgareddau drwy'r cyfryngau	

Nodiadau	Camau gweithredu
cymdeithasol. 7.3 Trafododd Aelodau hyrwyddo caffaeliadau ac arddangosfeydd newydd, yn arbennig yn y brif neuadd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, lle'r oedd newidiadau i arddangosfeydd dros dro yn fwy arferol. Anogir defnydd o lwyfannau digidol hefyd er mwyn hyrwyddo'r gwaith hwn. Nododd Aelodau fod yna sgôp i hyrwyddo ansawdd ymchwil yr Amgueddfa fel Sefydliad Ymchwil yn well. 7.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.	
8 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL / BRIFF CHWARTEROL Y PEDWERYDD CHWARTER 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 8.2 Adroddwyd: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod niferoedd ymwelwyr yn is na'r targed ac yn is na niferoedd llynedd, a bod hyn yn bennaf o ganlyniad i'r anghydfod diwydiannol yn chwarter 1. Roedd nifer yr ymwelwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn eithriad cadarnhaol, gyda thwf sylweddol mewn niferoedd oherwydd y rhaglen arddangosfeydd. 8.3 Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol fod arian yr Amgueddfa wedi aros o fewn cyllideb y flwyddyn, a bod y targed arbedion wedi'i gyrraedd. Nododd yr Aelodau fod yr Amgueddfa'n paratoi at fuddsoddi mewn gwaith uwchraddio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Fel y disgwylir, roedd Sain Ffagan yn defnyddio rhan fwyaf o'r gyllideb cyfalaf yn y cyfnod presennol. 8.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.	
9 DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL 9.1 Adroddwyd: Dim i'w adrodd. 9.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
10 PWYLLGOR ADOLYGU PERFFORMIAD – ADDASIAD ARFAETHEDIG I'R CYLCH GORCHWYL 10.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa. 10.2 Adroddwyd: Roedd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad wedi ystyried adolygu nifer yr Ymddiriedolwyr a all gael eu penodi fel Aelodau i'r Pwyllgor. 10.3 Cynigiwyd penodi'r Ymddiriedolwr Hywel John i'r Pwyllgor. 10.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, ac nid oes angen adolygu nifer yr Ymddiriedolwyr a all gael eu penodi i'r Pwyllgor. Cymeradwyo penodiad	

Nodiadau	Camau gweithredu
Hywel John i'r Pwyllgor ar unwaith.	
11 PWYLLGOR ADOLYGU PERFFORMIAD – ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 11.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad. 11.2 Adroddwyd: Nododd y Cadeirydd meysydd cyfrifoldeb a materion dirprwyedig yr oedd y Pwyllgor wedi'u hystyried dros y flwyddyn. 11.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a diolchodd y Llywydd i'r Cadeirydd am ei adroddiad.	
12 Y PWYLLGOR ARCHWILIO – ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 12.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. 12.2 Adroddwyd: Roedd y Pwyllgor wedi goruchwylio materion ariannol, cydymffurfio llywodraethol corfforaethol, a gofynion archwilio. 12.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a diolchodd y Llywydd i'r Cadeirydd am ei adroddiad.	
13 CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CAERLLION 25 MAI 2017 13.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Ymddiriedolwr Carys Howell – Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a Chyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd. 13.2 Adroddwyd: Nododd y Cadeirydd uchafbwyntiau allweddol, sef brwdfrydedd a chefnogaeth leol i'r Amgueddfa, partneriaethau a nifer yr ymweliadau gan ysgolion. 13.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a diolchodd y Llywydd i'r Cadeirydd am ei adroddiad.	
14 AELODAETH Y GRŴP CYNGHORI CELF 14.1 Adroddwyd: Adroddodd y Llywydd fod cyfnod Mathew Prichard yn Gadeirydd ar y Grŵp wedi dod i ben ar 5 Mai 2017, ac y byddai Viscount Windsor yn cymryd ei le yn y cyfarfod nesaf. Diolchodd y Bwrdd i Mathew am ei stiwardiaeth a'i gyfraniad i'r Amgueddfa drwy ei rôl ar y Cyngor, ac fel Llywydd rhwng 1996 a 2002. Mae Mathew Prichard yn parhau i gefnogi'r Amgueddfa drwy'r Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston, ac yn rhinwedd ei rôl yn Gadeirydd ar Artes Mundi. 14.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod newidiadau i aelodaeth y Grŵp	Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac

Nodiadau	Camau gweithredu
Cynghori Celf cael eu hystyried.	Ymchwil
15 CYFARFODYDD ADOLYGU YR YMDDIRIEDOLWYR Â'R LLYWYDD 15.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Llywydd. 15.2 Adroddwyd: Diolchwyd i'r Ymddiriedolwyr am eu cyfraniadau unigol. 15.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd y meysydd blaenoriaeth sydd angen eu hystyried. Llywodraeth Cymru i gael ei gwahodd i fynychu sesiynau trafod anffurfiol a pherthnasol gyda'r Bwrdd a staff, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Y camau gweithredu sy'n ymwneud â phob Ymddiriedolwr, a gofnodwyd yn ystod y cyfarfodydd adolygu, i gael eu symud ymlaen.	Yr Uwch Dîm Rheoli
16 COFNODION DRAFFT O WAHANOL GYFARFODYDD 16.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: 16.1.1 Grŵp Cynghori Celf 05 Mai 2017 16.1.2 Mentrau AOCC Cyf 09 Mai 2017 16.1.3 Ymddiriedolwyr Pensiwn 16 Mai 2017 16.1.4 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 17 Mai 2017 16.1.5 Pwyllgor Archwilio 18 Mai 2017 16.1.6 Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil 18 Mai 2017 16.1.7 Grŵp Comisiynu Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 08 Mehefin 2017. 16.2 Adroddwyd: 16.2.1 Grŵp Cynghori Celf – diolchodd yr Amgueddfa i Ian a Mercedes Stoutzker am eu cefnogaeth. 16.2.2 Mentrau AOCC Cyf – roedd arferion newydd yn cael eu rhoi ar waith ac roedd meysydd datblygu yn cael eu harchwilio. Nododd Aelodau fod y cwmni ond yn darparu rhan o incwm cyfan a gynhyrchir gan yr Amgueddfa. Roedd yr Amgueddfa yn ddiolchgar am gyfraniadau ei Haelodau annibynnol. Nododd Ymddiriedolwyr y bydd y Bartneriaeth Strategol yn llwyfan i rannu arbenigedd masnachol. 16.2.3 Ymddiriedolwyr Pensiwn – amlygodd y Cadeirydd y siart perfformiad cyllid. 16.2.4 Pwyllgor Adolygu Perfformiad – pwynt 8.1.2 i gael ei addasu i adlewyrchu'r £131,000 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod, a nodwyd y cofnodion a'r adroddiad. Bwrdd codi arian oedd y Bwrdd Datblygu (yn hytrach na Bwrdd craffu) a bydd codi arian yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. 16.2.5 Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil – roedd y Pennaeth Ymchwil yn gweithio'n dda gyda'r Pwyllgor, a chroesawyd cyfraniad yr Ymddiriedolwr Catherine	

Nodiadau	Camau gweithredu
Duigan. Roedd cyfraniad yr Aelodau allanol yn bwysig iawn, yn arbennig o ran trafod partneriaethau Addysg Uwch. 16.2.6 Sain Ffagan – Nododd Aelodau'r daflen Cwestiwn ac Ateb. 16.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Cofnodion drafft wedi'u nodi. Y daflen Cwestiwn ac Ateb Sain Ffagan i gael ei dosbarthu i'r holl Aelodau.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol
17 UNRHYW FATER ARALL 17.1 Aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau. 17.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a chymeradwyo penodiad Rachel Hughes i'r Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau ar unwaith.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 28 Medi 2017 yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.	